

Bloc Mewnwythiennol Rhanbarthol

Cyflwyniad

Mae gennym ddau fath o system nerfol:

1. Mae yna un yr ydym yn gwybod amdani. Mae'n dweud wrthym am yr hyn sydd o'n gwmpas. Rydym yn defnyddio i flasau, i glywed ac i deimlo pethau dymunol ac annymunol. Mae hefyd yn rheoli'n symudiadau, cerdded, dal a'r holl bethau yr ydym yn dewis eu gwneud.
2. Mae'r system arall yn un na ellir mo'i rheoli. Mae'n gofalu am yr holl bethau yn ein corff sy'n gorfod digwydd yn awtomatig - y pwysedd gwaed, maint canhwyllau'r llygaid, cyflymder y galon, metaboledd, chwysu ayb. Rhan o'r system nerfol hon na ellir mo'i rheoli yw'r system nerfol sympathetig.

System Nerfol Sympathetig a Phoen

Mae'r math cyntaf o nerfau yn gyfrifol am gario negeseuon poen fel arfer. Weithiau, fodd bynnag, mae'r nerfau sympathetig yn rhan o'r broses hon. Gall hyn ddigwydd pan fo'r poen yn un cronig neu'n cael ei achosi gan niwed i'r nerfau. Gallai blocio'r nerfau sympathetig helpu i leihau'r poen.

Bloc Mewnwythiennol Rhanbarthol efo Guanethidine

Mae cymysgedd o anaesthetig lleol a Guanethidine, sy'n blocio'r system nerfol awtonomig ac efallai'n lleihau'r boen sy'n gysylltiedig, yn cael ei chwistrellu.

I osgoi rhoi'r cyffur hwn i'r corff i gyd, dyfeisiwyd techneg lle caiff y fraich neu'r goes sy'n boenus ei hynysu trwy ddefnyddio rhwymyn tynhau. Yna caiff y cyffur ei chwistrellu i'r fraich neu'r goes ac mae'r rhwymyn tynhau yn aros yn dynn am 20 munud.

Mae hyn yn rhoi amser i'r cyffur 'aros' yn y fraich neu'r goes a phan mae'r rhwymyn tynhau'n cael ei ryddhau ychydig bach o'r cyffur sy'n mynd i weddill y corff. Yn aml mae hyn yn cael ei ailadrodd deirgwaith efo egwyl o wythnos rhwng bob un i gael yr effaith gorau.

Sut mae hyn yn cael ei wneud?

Fe fyddwch yn dod i'r ysbyty am ychydig o oriau.

Bydd y bloc yn cael ei wneud yn y theatr. Rhoddir nodwyddau ar gefn y ddwy law (ar gyfer bloc i'r fraich) neu'r goes a effeithir ac un law. Bydd y rhwymyn tynhau yn cael ei roi ar yr aelod sydd i'w flocio a gadewir i'r gwaed ddraenio cyn i'r rhwymyn tynhau gael ei lenwi ag aer.

Ar ôl i'r cyffur gael ei chwistrellu, bydd y rhwymyn tynhau yn cael ei gadw'n llawn am 20 munud. Efallai y bydd hyn yn teimlo'n anghyfforddus ond gall yr Anaesthetydd roi sedatif ysgafn i chi os bydd hyn yn broblem. Pan gaiff yr aer ei ollwng o'r rhwymyn, bydd y fraich neu'r goes yn cochi ac yn teimlo'n gynnes.

Beth ydy'r problemau posib?

Mae effaith blocio'r cyffur yn gallu achosi i'ch pwysedd gwaed syrthio am gyfnod byr. Bydd hyn yn digwydd yn union ar ôl rhyddhau'r rhwymyn tynhau ac mae'n hawdd ei drin.

Intravenous Regional Block

Introduction

We have two types of nervous system:

1. There is one of which we are aware. This tells us about our surroundings. We use it to taste, hear and feel both pleasant and unpleasant things. It also controls our movements, walking, holding and the things we choose to do.
2. The other system is involuntary. This takes care of all the functions in the body that need to happen automatically - the blood pressure, size of pupils of the eye, heart rate, metabolism, sweating etc. Part of this involuntary nervous system is the sympathetic nervous system.

Sympathetic Nervous System and Pain

The first type of nerves are usually responsible for carrying the pain messages. Sometimes the sympathetic nerves become involved in this process. This may happen when pain becomes chronic or is caused by damage to the nerves. Blocking the sympathetic nerves may then help to reduce the pain.

Intravenous Regional block with Guanethidine

A mixture of local anaesthetic and Guanethidine, which blocks the autonomic nervous system and may reduce pain related to it, is injected.

To avoid giving this drug to the whole body, a technique has been devised where the limb which is painful is isolated using a tourniquet. The drug is then injected into the arm or leg and the tourniquet stays tight for 20 minutes. This gives the drug time to 'fix' in the arm or leg and when the tourniquet is deflated very little drug gets into the rest of the body.

This is often repeated three times at weekly intervals to get maximum effect.

How is this done?

You will come into hospital for a few hours.

The block will be done in the theatre. Needles will be put into the back of both hands (for an arm block) or the affected leg and a hand. The tourniquet will be put on the limb to be blocked and the blood allowed to drain out before the tourniquet is blown up.

After the drug is injected, the tourniquet will be kept up for 20 minutes. This may feel uncomfortable but the anaesthetist can give you a mild sedative if this is a problem. When the tourniquet is deflated, the limb will flush and feel warm.

What are the potential problems?

The blocking effect of the drug may cause your blood pressure to drop for a short time. This will occur just after the tourniquet is released and is easily treated.